# Fframwaith ymchwil a datblygu rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:gweithio gyda chymunedau

Crynodeb Prosiect FRS19209/S

Datblygodd y prosiect hwn fframwaith i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol ar sut i weithio gyda chymunedau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol.Defnyddir y gwaith hwn i flaenoriaethu ymchwil bellach, a fydd yn cefnogi'r rhai sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**Cefndir**

Nododd strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd yn hydref 2020 y rôl bwysig y mae cymunedau yn ei chwarae wrth helpu i gyflawni rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae hyn wedi arwain at y galw am ymchwil bellach i ddeall y ffordd orau o weithio gyda chymunedau i wneud y canlynol:

- rheoli asedau perygl llifogydd (adeileddau)
- paratoi ar gyfer digwyddiadau, ymateb iddynt, ac yna adfer ohonynt
- cymryd rhan mewn penderfyniadau, dyluniadau a chyllid ar gyfer cynlluniau
- rheoli tir i sicrhau buddion perygl llifogydd
- paratoi ac addasu cartrefi i leihau effaith llifogydd
- cymryd rhan mewn sgyrsiau am addasu tymor hir

Ar gyfer y chwe gweithgaredd hyn, roeddem am ddeall pa ymchwil a wnaed yn y gorffennol ac unrhyw ymchwil yr oedd ei hangen yn y dyfodol. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth manwl, gan nodi bylchau ymchwil a nodi 12 maes blaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

**Allbynnau**

Prif allbynnau'r fframwaith Ymchwil a Datblygu Cymunedau yw'r canlynol:

- adroddiad o'r adolygiad llenyddiaeth, sy'n edrych yn fanwl ar y chwe gweithgaredd
- crynodebau un dudalen ar gyfer pob gweithgaredd sy'n crynhoi canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth
- adroddiad o'r fframwaith ymchwil
- crynodeb o'r wyddoniaeth

Nododd yr adroddiad y 12 prosiect canlynol fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y dyfodol:

- cyfranogiad cymunedol a chyfranogiad gan wirfoddolwyr
- cynnal cyfranogiad effeithiol
- gwella'r broses adfer ar ôl llifogydd
- cyfranogiad tirfeddiannwyr a rheolwyr tir mewn rheoli llifogydd yn naturiol
- prosesau o gyfranogi emosiynol a chymdeithasol
- ymlyniad cymunedol â lleoedd y mae’r newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt
- gwella cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau

- rôl gwybodaeth gymunedol am lifogydd
- nodweddion awdurdodau rheoli risg sy'n dylanwadu ar gyfranogiad
- asesu costau a buddion cyfranogi
- arweinyddiaeth gymunedol effeithiol
- galluogi cynnal a chadw cymunedol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn lleol

**Y camau nesaf**
Byddwn yn defnyddio'r allbynnau o'r fframwaith i lunio prosiectau ymchwil presennol ac yn y dyfodol ac i flaenoriaethu ein cyllid ymchwil.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS19209, yr adroddir amdano'n fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

**Adroddiad:** FRS19209

**Teitl:** Fframwaith ymchwil a datblygu cymunedau a rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

**Ebrill 2021**

**Rheolwr y prosiect:** Lydia Burgess-Gamble

**Contractiwr ymchwil:** Collingwood Environmental Planning

**Cydweithredwr ymchwil:**Canolfan Ymchwil Perygl Llifogydd

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: http://www.gov.uk/government/publications

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd